Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@yggglantrisant.rctcbc.cymru
www.yggglantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* Mr R O'Neil

18.03.25

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Gwahoddiad i Fod yn Gynrychiolydd Dosbarth ar ein Fforwm Rhieni

Yn YGGG Llantrisant, rydym yn gwerthfawrogi'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol ac yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio i gynnig y profiadau gorau posibl i'r plant. Er mwyn cryfhau'r cydweithrediad hwn, rydym yn gwahodd rhieni a gofalwyr i enwebu eu hunain i fod yn gynrychiolwyr dosbarth ar ein Fforwm Rhieni.

Mae'r Fforwm Rhieni yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr rieni gwrdd â ni i drafod pynciau sy'n bwysig i'n cymuned ysgol. Bydd yn blatfform gwerthfawr i rannu adborth, syniadau a phryderon a all helpu i lunio a gwella bywyd yr ysgol.

Fel cynrychiolydd dosbarth, byddech yn:

- Mynychu cyfarfodydd yn ystod y diwrnod ysgol gyda'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli;
- Cynrychioli safbwyntiau rhieni a gofalwyr o ddosbarth eich plentyn;
- Helpu i rannu negeseuon a gwybodaeth allweddol gyda rhieni a gofalwyr eraill;
- Cyfrannu at drafodaethau ar flaenoriaethau a datblygiadau'r ysgol.

Os oes gennych amser rhydd yn ystod y dydd a diddordeb mewn cynnig eich hun fel cynrychiolydd dosbarth, llenwch y ffurflen enwebu hon erbyn canol dydd, Mawrth 30ain. Os bydd mwy nag un cais ar gyfer dosbarth, byddwn yn cynnal proses dethol i sicrhau cynrychiolaeth deg.

Gobeithiwn y bydd llawer ohonoch yn ystyried y rôl newydd hon. Bydd eich mewnbwn yn amhrisiadwy wrth wneud YGGG Llantrisant y gorau y gall fod i'r plant. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir,

Dolen i'r ffurflen enwebu: https://forms.office.com/e/h1pvHKTaxq

Gwybodaeth Bellach: https://bit.ly/4bAaPSU

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.ygggllantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

18.03.25

Dear Parents / Carers,

Invitation to Become a Class Representative on Our Parents' Forum

At YGGG Llantrisant, we value the partnership between home and school and recognise the importance of working together to provide the best possible experiences for the children. To strengthen this collaboration, we are inviting parents and carers to nominate themselves to become class representatives on our Parents' Forum.

The Parents' Forum will provide an opportunity for parent representatives to meet with us to discuss topics that matter to our school community. It will be a valuable platform to share feedback, ideas and concerns to help shape and improve school life.

As a class representative, you would:

- *Attend meetings during the school day with the Head Teacher and Senior Leadership Team;*
- *Represent the views of parents and carers from your child's class;*
- *Help to share key messages and information with other parents / carers;*
- *Contribute to discussions on school priorities and developments.*

If you have spare time during the day and are interested in nominating yourself as a class representative, please complete this nomination form by midday on March 30th. Should there be multiple nominations for a class, we shall hold a selection process to ensure fair representation.

We hope many of you will consider this new role. Your input will be invaluable in making YGGG Llantrisant the best it can be for our children. If you have any questions, please do not hesitate to contact us.

Thank you for your continued support.

Yours sincerely,



Nomination Form link: https://forms.office.com/e/h1pvHKTaxq

Further Information: https://bit.ly/4bAaPSU